Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gwneud Penderfyniadau Gwell a Thecach

A. Cynnig

1. **Teitl y cynnig**

   Creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru

2. **Beth mae eich cynnig yn anelu at ei gyflawni?**

   Nod y cynnig polisi yw sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru i ystyried a chytuno ar Gytundeb Cyflog Teg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a fydd yn pennu safonau gofynnol ar gyfer cyflog a thelerau ac amodau, y gellir eu gorfodi o dan y gyfraith. Caiff y cytundeb yng Nghymru ei lunio drwy gyflwyno math o gydfargeinio sectoraidd lle y bydd gweithwyr, a gynrychiolir gan undebau llafur, yn negodi â'u cyflogwyr i gytuno ar gyflog, telerau ac amodau, a materion cyflogaeth ehangach.

3. **Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?**

   Mawrth 26

4. **Ar ba sefydliadau, grwpiau neu gymunedau mae'n debygol o effeithio?**

   - **Gweithwyr gofal cymdeithasol** sydd o fewn cwmpas cychwynnol Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, yn enwedig y gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.
   - **Cyflogwyr a darparwyr gofal cymdeithasol**, gan gynnwys darparwyr annibynnol, preifat, gwirfoddol ac nid-er-elw, cartrefi gofal, darparwyr gofal cartref, darparwyr byw â chymorth a chyflogwyr cynorthwywyr personol.
   - **Undebau llafur a chyrff sy'n cynrychioli gweithwyr**, gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan mewn prosesau cydfargeinio sectoraidd.
   - **Sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr**, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli ehangder darparwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru.
   - **Awdurdodau lleol**, gan gynnwys eu rolau fel comisiynwyr, cyllidwyr, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid statudol wrth ddarparu gofal cymdeithasol.
   - **Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC**, oherwydd eu rôl wrth gefnogi gweithredu, ystyriaethau o ran fforddiadwyedd a gweithgarwch ymgysylltu llywodraeth leol.
   - **Comisiynwyr y GIG a byrddau iechyd**, lle gallai gwasanaethau gofal a gomisiynwyd a sefydlogrwydd y gweithlu effeithio ar brosesau integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

- **Pobl sy'n cael gofal cymdeithasol,** gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl sy'n cael gofal cartref, preswylwyr cartrefi gofal a phobl sy'n cael cymorth yn y gymuned.
- **Pobl sy'n talu am eu gofal eu hunain**, gan gynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a phobl sy'n cyflogi cynorthwywyr personol drwy daliadau uniongyrchol.
- **Gofalwyr di-dâl a theuluoedd**, y gallai newidiadau i argaeledd gwasanaethau, sefydlogrwydd a pharhad gofal gael effaith anuniongyrchol arnynt.
- **Sefydliadau yn y trydydd sector a darparwyr llai o faint**, yn enwedig lle y gallai fforddiadwyedd, ffioedd comisiynu a gofynion gweithredu effeithio ar gynaliadwyedd.
- **Cymunedau gwledig a chymunedau Cymraeg**, lle gallai cadw'r gweithlu, amser teithio, marchnadoedd llafur lleol a mynediad at ofal drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn berthnasol.
- **Darparwyr a gweithwyr trawsffiniol**, lle mae gwasanaethau'n gweithredu rhwng Cymru a Lloegr a lle y gallai fod angen iddynt reoli trefniadau cyflog a chyflogaeth gwahanol.

5. A ydych wedi cofrestru eich Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar iShare?

Do

B.	Yr effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig ac ymgysylltu â nhw

Oedran

1. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**

   Y brif dystiolaeth yw dadansoddiad yr ymgynghoriad ar y cynigion i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, gan gynnwys ymatebion gan weithwyr gofal cymdeithasol, darparwyr, undebau llafur, cyrff cynrychioliadol ac unigolion. Nododd yr ymatebwyr fanteision tebygol i weithwyr hŷn drwy well cyflog, cydnabyddiaeth a chyfraddau cadw staff, a manteision anuniongyrchol posibl i bobl hŷn drwy fwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu. Gwnaethant hefyd godi risgiau posibl i bobl hŷn sy'n cael gofal a phobl hŷn sy'n ariannu eu gofal eu hunain os na chaiff y broses weithredu ei hariannu'n ddigonol a'i bod yn effeithio ar argaeledd gwasanaethau neu daliadau.

   Mae'r gwerthusiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol a thystiolaeth sydd ar gael am y gweithlu gofal cymdeithasol yn rhoi cyd-destun ychwanegol. https://www.llyw.cymru/cyflog-byw-real-i-weithwyr-gofal-cymdeithasol-gwerthuso-prosesau.

2. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**

   Nid yw'r dystiolaeth a adolygwyd yn rhoi dadansoddiad manwl yn ôl oedran o weithwyr, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gofalwyr di-dâl na phobl sy'n cael gofal. Mae'n ansicr a fydd effeithiau yn wahanol rhwng gweithwyr iau a gweithwyr hŷn, gan gynnwys o ran recriwtio, dilyniant a chanlyniadau pensiwn. Er mwyn cynnal ymchwiliadau manwl i effeithiau ar y gweithlu a defnyddwyr gwasanaethau wedi'u dadgyfuno yn ôl oedran, bydd angen tystiolaeth ac ystyriaeth bellach er mwyn archwilio effaith y rhaglen hon ar ôl i ddigon o amser fynd heibio ar ôl i'r Cytundeb Cyflog Teg cyntaf gael ei sicrhau.

3. **Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

   Gan weithio gyda phartneriaid yn y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, gwnaethom ddatblygu'r cwestiynau allweddol i'w gofyn i'r sector gofal cymdeithasol, pob parti â diddordeb a'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'n hymgynghoriad ar y cynigion hyn.

   Ategwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos o hyd gan ddau weminar a chyfarfodydd â rhanddeiliaid - https://www.llyw.cymru/datblygu-corff-negodi-gofal-cymdeithasol-i-gymru-i-bennu-cytundebau-cyflog-teg-ar-gyfer-y-gweithlu. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys gweithwyr, cyflogwyr a darparwyr, undebau llafur, cyrff cynrychioliadol, llywodraeth leol ac unigolion a sefydliadau â diddordeb. Cafwyd safbwyntiau gan weithwyr o wahanol oedrannau a phobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau, a safbwyntiau amdanynt, er mwyn llywio'r broses ddatblygu, er nad oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu oedran-benodol ar wahân.

4. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

   Atgyfnerthodd y dystiolaeth ffocws y cynnig ar isafswm cyflog teg, cyllid cynaliadwy, cadw'r gweithlu a phroses weithredu glir. Llywiodd hefyd ofynion i Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru ystyried fforddiadwyedd a chyflawnadwyedd ac adolygu cwmpas ac effeithiau yn rheolaidd, gan gydnabod canlyniadau posibl i bobl hŷn sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal.

5. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**

   Gallai effeithiau cadarnhaol tebygol gynnwys cyflog uwch a mwy cyson, cydnabyddiaeth well a dilyniant cliriach i weithwyr o bob oedran, gan gefnogi prosesau recriwtio a chadw staff. Gallai gweithlu gofal cymdeithasol mwy sefydlog a chynaliadwy wella parhad ac ansawdd gofal i bobl hŷn, gan gyfrannu hefyd at wydnwch ehangach mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

   Gallai fod effeithiau negyddol anuniongyrchol os na chaiff costau eu hariannu'n llawn, gan gynnwys pwysau posibl ar hyfywedd darparwyr, llai o wasanaethau ar gael neu daliadau uwch i unigolion hŷn sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Ni fwriedir unrhyw wahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran, ar gyfer y gweithlu na'r rhai sy'n cael gofal a chymorth. Unwaith eto, gallai fod effaith negyddol ar y GIG os na fydd hyn yn mynd rhagddo a bod gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd cadw staff a darparu gwasanaethau hanfodol.

6. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**

   Byddwn yn defnyddio tystiolaeth wedi'i dadgyfuno yn ôl oedran lle y bo ar gael er mwyn inni allu asesu fforddiadwyedd a chynaliadwyedd darparwyr cyn rhoi pob Cytundeb Cyflog Teg ar waith; monitro prosesau recriwtio a chadw staff a chyflog yn ôl oedran; ystyried effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth hŷn ac unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn asesiadau effaith diweddarach; a defnyddio dulliau cyfathrebu hygyrch nad ydynt yn rhai digidol yn ogystal â chyfathrebu ar-lein.

Anabledd

7. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**

   Nododd yr ymgynghoriad fanteision posibl i weithwyr anabl yn deillio o gyflog tecach a thelerau mwy cyson, a risgiau i bobl anabl sy'n cael neu'n prynu gofal os bydd costau yn effeithio ar argaeledd, parhad neu daliadau i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Roedd ymatebion hefyd yn cefnogi hyfforddiant arbenigol a mesurau i gefnogi llesiant, cydraddoldeb ac urddas yn y gwaith. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn darparu'r fframwaith ar gyfer nodi a dileu rhwystrau.

8. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid yw'r dystiolaeth yn mesur effeithiau yn ôl y math o amhariad nac yn gwahaniaethu rhwng gweithwyr anabl, cyflogwyr cynorthwywyr personol pobl anabl a phobl anabl sy'n cael gwahanol fathau o ofal. Prin yw'r dystiolaeth am hygyrchedd, addasiadau rhesymol ac effeithiau ar allu unigolion i fyw'n annibynnol. Dylid datblygu rhagor o dystiolaeth gyda phobl anabl a sefydliadau cynrychioliadol unwaith y bydd y rhaglen hon wedi cael peth amser i ymsefydlu a datblygu'r dystiolaeth angenrheidiol.

9. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Ymgysylltodd yr ymgynghoriad, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid â gweithwyr, darparwyr, undebau llafur, cyrff cynrychioliadol ac unigolion, gan ei gwneud yn bosibl i faterion sy'n effeithio ar weithwyr anabl a phobl anabl sy'n defnyddio neu'n prynu gofal gael eu codi. Cynigiodd ymatebwyr fewnbwn defnyddwyr gwasanaethau a gwasanaethau eiriolaeth hefyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu ar wahân â phobl anabl yn y deunydd a adolygwyd.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Cadarnhaodd y dystiolaeth fod angen i Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru ystyried fforddiadwyedd, cynaliadwyedd gwasanaethau a barn pobl sy'n cael gofal ac i ganllawiau a phrosesau ymgysylltu fod yn hygyrch. Mae hefyd o blaid sicrhau bod modd ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, llesiant, hyfforddiant ac urddas yn y gwaith o hyd lle mae tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn gwella canlyniadau i'r gweithlu.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Gallai effeithiau cadarnhaol gynnwys cyflog tecach, mwy o sicrwydd swydd a thelerau mwy cyson i weithwyr anabl, ochr yn ochr â gwell parhad i bobl anabl sy'n cael gofal. Yn y dyfodol, ceir posibilrwydd o negodi telerau ehangach, gan gynnwys gwell tâl salwch, gweithio hyblyg a darpariaethau llesiant a allai leihau rhwystrau.

Mae effeithiau negyddol anuniongyrchol posibl yn cynnwys llai o wasanaethau ar gael neu gostau uwch os bydd cyllid a gwaith comisiynu yn annigonol ac allgau os bydd gwybodaeth neu brosesau yn anhygyrch. Gallai hyn arwain at effeithiau ledled Cymru mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys rhoi pwysau ychwanegol ar y sector gwirfoddol a'r GIG i lenwi'r bylchau a grëir gan unrhyw wasanaethau gofal cymdeithasol a gollir.

12. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn cymhwyso'r Model Cymdeithasol o Anabledd; darparu canllawiau a gohebiaeth sydd i'w deall; ymgorffori addasiadau rhesymol mewn penodiadau, gweithgarwch ymgysylltu a phrosesau Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru;

ymgysylltu â gweithwyr anabl, pobl sy'n cael gofal a sefydliadau cynrychioliadol; asesu effeithiau ar daliadau uniongyrchol, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a pharhad; a monitro canlyniadau wedi'u dadgyfuno yn ôl anabledd lle bo'n gyfreithlon ac yn gymesur.

Hil

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Mae dadansoddiad yr ymgynghoriad yn cofnodi barn ymatebwyr y gallai Cytundebau Cyflog Teg gael effaith gadarnhaol ar weithwyr ethnig lleiafrifol drwy well cyflog, cydnabyddiaeth a chysondeb. Mae ffynonellau ehangach yn cynnwys ymatebion i ymgynghoriadau gan weithwyr, darparwyr, undebau llafur a chyrff cynrychioliadol a thystiolaeth sydd ar gael am y gweithlu gofal cymdeithasol. Ni nodwyd unrhyw driniaeth wahaniaethol fwriadedig yn ôl hil.

Fodd bynnag, gallai amodau cyflogaeth gweithwyr tramor fod yn wahanol oherwydd gofynion mewnfudo a threfniadau nawdd. Yn arbennig, gallai trefniadau nawdd ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch cyflogaeth a phrofiadau'r gweithlu mewn ffyrdd sy'n wahanol i brofiadau gweithwyr eraill a gallent olygu bod rhai gweithwyr yn llai tebygol o fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, codi pryderon neu adael amgylcheddau gwaith gwael. Dylai Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru fod yn ymwybodol o effaith bosibl ei benderfyniadau ar weithwyr a recriwtiwyd yn rhyngwladol ac ystyried sut mae cynigion yn effeithio ar wahanol grwpiau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid yw'r dystiolaeth yn darparu data digon manwl yn ôl ethnigrwydd ar gyflog, dosbarthiad galwedigaethol, dilyniant, gwaith ansicr na chyfranogiad mewn ymgynghoriadau. Felly, mae'n ansicr a allai grwpiau hil neu grwpiau ethnig penodol brofi manteision neu rwystrau gwahanol. Dylid ymgymryd â rhagor o waith dadansoddi a gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu lle y bo'n gymesur, unwaith y bydd digon o amser wedi'i roi i'r rhaglen ymsefydlu.

15. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Roedd yr ymgynghoriad, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid ar agor i bawb yn y sector – gweithwyr, unigolion, darparwyr, undebau llafur a chyrff cynrychioliadol - ac er bod rhai cwestiynau yn canolbwyntio ar gasglu data demograffig. Yn anffodus, gan mai cwestiynau gwirfoddol oedd y rhain, ni wnaeth pob ymatebydd eu hateb. Fodd bynnag, nid yw'r deunydd a adolygwyd yn dangos gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu â chymunedau ethnig lleiafrifol penodol, Sipsiwn a Theithwyr, mudwyr, ffoaduriaid na sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi safonau gofynnol gorfodadwy, cynrychiolaeth gytbwys a chyllid tryloyw, a ddylai leihau triniaeth anghyson ar draws sector tameidiog. Dengys hefyd y gall cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gael eu hystyried o fewn cylch gwaith ehangach Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, lle mae hynny'n cael ei ategu gan dystiolaeth. Cynhelir asesiad effaith manwl, ehangach a fydd yn canolbwyntio ar faterion sylweddol eraill y gellid effeithio arnynt ar draws y sector gofal cymdeithasol, y cyhoedd a chyflogwyr.

17. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**

Gallai'r cynnig hyrwyddo cydraddoldeb drwy gyflog gwell, dilyniant cliriach a thelerau mwy cyson i weithwyr ethnig lleiafrifol, yn enwedig lle maent wedi'u crynhoi mewn rolau â chyflog is neu rolau ansicr. Gallai safonau cyffredin a darpariaethau urddas yn y gwaith helpu i leihau gwahaniaethu.

Gallai risgiau gynnwys ymwybyddiaeth, cynrychiolaeth neu allu anghyfartal i herio triniaeth annheg, neu effeithiau anfwriadol ar weithwyr sy'n wynebu cyfyngiadau ar gyflogaeth sy'n gysylltiedig â mewnfudo; mae'r rhain yn gofyn am ragor o dystiolaeth. Fodd bynnag, ni fwriedir unrhyw effaith negyddol uniongyrchol.

18. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), i geisio tystiolaeth wedi'i dadgyfuno yn ôl ethnigrwydd; annog cynrychiolaeth amrywiol a phrosesau penodi cynhwysol; darparu gohebiaeth glir a hygyrch, gyda chyfieithiadau lle y bo angen; ymgysylltu â sefydliadau cydraddoldeb a sefydliadau cymunedol perthnasol; monitro cyflog, dilyniant, cwynion a chanlyniadau'r gweithlu yn ôl ethnigrwydd lle y bo'n gyfreithlon; a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a nodwyd gyda'r sector – partneriaid a rhanddeiliaid allweddol – drwy weithio gydag aelodau y Fforwm a Phartneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a'u gweithgorau.

Crefydd, Cred a Diffyg Cred

19. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**

Ni nododd yr ymgynghoriad unrhyw effeithiau sylweddol sy'n ymwneud yn benodol â chrefydd, cred neu ddiffyg cred, er y gallai cyflog teg, trefniadau gweithio rhagweladwy a darpariaethau cydraddoldeb fod o fudd i weithwyr ar draws grwpiau cred.

20. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid oes unrhyw dystiolaeth nodwedd-benodol ar gael ar gyfansoddiad y gweithlu, gwahaniaethu, ymlyniad crefyddol na phatrymau sifftiau. Felly, mae unrhyw effaith wahaniaethol yn parhau i fod yn ansicr er na ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol.

21. **Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Roedd yr ymgynghoriad, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid ar agor i bawb, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu â sefydliadau ffydd neu gred ac efallai y bydd angen hyn os bydd cynigion yn y dyfodol yn cael effeithiau cliriach sy'n gysylltiedig â chred.

22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn gofyn am unrhyw newid i'r cynnig craidd, sy'n cadw hyblygrwydd i Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru fynd i'r afael â materion cydraddoldeb yn y dyfodol sy'n ymwneud â chrefydd, cred neu ddiffyg cred.

23. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ni ddisgwylir unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol, er y gallai safonau cyflogaeth tecach gael effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol.

24. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn defnyddio trefniadau cynhwysol, asesu patrwm gwaith yn y dyfodol a gadael cynigion ar gyfer effeithiau anuniongyrchol, darparu llwybrau i godi pryderon, a monitro tystiolaeth o anfantais sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred.

Rhyw

25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Dengys yr ymgynghoriad, ein gweithlu a'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adolygiad annibynnol o raglen y Cyflog Byw Gwirioneddol fod menywod yn debygol o elwa o well cyflog, cydnabyddiaeth a llwybrau gyrfa, gyda chefnogaeth hefyd wedi'i mynegi o blaid polisïau cydraddoldeb, llesiant ac urddas yn y gwaith a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

26. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**

Mae tystiolaeth ar fylchau cyflog yn seiliedig ar ryw, gwahanu galwedigaethol, dilyniant, patrymau gwaith a chyfrifoldebau gofalu di-dâl yn anghyflawn.

27. **Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Galluogodd yr ymgynghoriad, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid fenywod a sefydliadau'r gweithlu i gyfrannu, er nad oes tystiolaeth o unrhyw ymarfer ymgysylltu rhyw-benodol ar wahân.

28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Atgyfnerthodd y dystiolaeth yr achos dros derfyn isaf cyflog gorfodadwy, dilyniant cliriach a'r gallu i ystyried materion sy'n ystyriol o deuluoedd; materion sy'n ymwneud â llesiant, urddas yn y gwaith a chydraddoldeb mewn gweithlu sy'n cynnwys menywod yn bennaf;

29. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Dylai'r cynnig hyrwyddo cydraddoldeb i fenywod drwy well cyflog, cydnabyddiaeth, dilyniant a diogelwch ariannol, ond gallai gwahanu galwedigaethol, dilyniant anghyfartal a phwysau gwasanaeth barhau os na fydd y broses weithredu na'r cyllid yn ddigonol. Trwy alluogi Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru i negodi amodau cyflogaeth ehangach, gan gynnwys hyfforddiant a dilyniant gyrfa ochr yn ochr â chyflog teg, gallai'r cynnig hefyd helpu i ddenu mwy o ddynion i'r gweithlu gofal cymdeithasol.

30. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddiwr y gweithlu, sef GCC, i ymchwilio i ba ddata sydd gennym a beth y gallai fod yn bosibl ei gasglu, gan gynnwys gwaith monitro wedi'i ddadgyfuno yn ôl rhyw, cynrychiolaeth gynhwysol, mesurau sy'n ystyriol o deuluoedd ac urddas yn y gwaith, ac asesiadau ariannu i nodi effeithiau ar gyflog, dilyniant, patrymau gwaith, cadw staff a gofalwyr di-dâl a mynd i'r afael â nhw.

Ailbennu Rhywedd

31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Ni nododd yr ymgynghoriad unrhyw effeithiau penodol yn ymwneud ag ailbennu rhywedd, er y gallai mesurau telerau teg, cydraddoldeb, cynhwysiant, llesiant ac urddas yn y gwaith fod o fudd i weithwyr traws drwy hyrwyddo safonau cyson a lleihau gwahaniaethu.

32. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid oes data gweithlu na data ymgynghori nodwedd-benodol dibynadwy ar gael a gallai pryderon ynghylch preifatrwydd gyfyngu ar y gallu i ddatgelu gwybodaeth. Felly, rhaid i unrhyw weithgarwch casglu neu ddadansoddi fod yn wirfoddol, yn gyfrinachol, yn gyfreithlon ac yn gymesur.

33. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r gweithgarwch ymgysylltu cysylltiedig ar agor i bob gweithiwr a rhanddeiliad, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu â phobl draws na sefydliadau cynrychioliadol.

34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid oedd y dystiolaeth bresennol yn gofyn am unrhyw newid i'r cynnig craidd, gan sicrhau bod modd mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd o hyd drwy ddarpariaethau ynglŷn â chydraddoldeb, urddas yn y gwaith a diwylliant y gweithlu yn y dyfodol.

35. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ni ragwelir unrhyw effaith andwyol uniongyrchol sylweddol, ond gallai telerau tecach, safonau cydraddoldeb a darpariaethau urddas yn y gwaith fod o fudd i weithwyr trawsryweddol tra bod angen gweithredu cynhwysol i atal allgáu, aflonyddu neu arferion cyflogaeth anghyson.

36. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn defnyddio prosesau cynhwysol, canllawiau clir ar beidio â gwahaniaethu, urddas a chyfrinachedd, llwybrau adrodd diogel, gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu lle y bo angen, a dim ond data monitro cydraddoldeb cyfreithlon, gwirfoddol a gwarchodedig.

Cyfeiriadedd Rhywiol

37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Ni nododd yr ymgynghoriad unrhyw effeithiau penodol yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol, er y gallai cefnogaeth i bolisïau cyflog teg, cydraddoldeb, lles ac urddas yn y gwaith wella cysondeb a chynhwysiant i weithwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

38. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid oes data gweithlu na data ymgynghori dibynadwy sy'n ymwneud yn benodol â chyfeiriadedd rhywiol ar gael. Felly, mae gwahaniaethau mewn cyflog, dilyniant, aflonyddu neu ddiwylliant y gweithle yn parhau i fod yn ansicr a gallai pryderon ynghylch preifatrwydd gyfyngu ar y gallu i ddatgelu gwybodaeth.

39. **Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?**

Roedd yr ymgynghoriad, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid ar agor i bawb, ond nid oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu â gweithwyr lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol na sefydliadau cynrychioliadol a dylid ystyried hyn os bydd telerau manwl yn codi materion penodol.

40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Nid oedd y dystiolaeth bresennol yn gofyn am unrhyw newid i'r cynnig craidd, tra bod cylch gwaith posibl Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru ar gyfer cydraddoldeb, urddas yn y gwaith a diwylliant sefydliadol yn darparu llwybr i fynd i'r afael â rhwystrau a hyrwyddo safonau cyson.

41. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig**

Ni ragwelir unrhyw effaith andwyol uniongyrchol sylweddol a gallai safonau cyflogaeth ac urddas yn y gwaith tecach a mwy cyson gael effeithiau cadarnhaol, er y dylai'r broses weithredu atal aflonyddu, allgáu o gynrychiolaeth neu drin partneriaid a theuluoedd yn anghyson.

42. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn sicrhau'r defnydd o iaith a dulliau ymgysylltu cynhwysol, canllawiau clir ar beidio â gwahaniaethu ac urddas yn y gwaith, llwybrau adrodd diogel, gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu lle y bo angen a monitro'n gyfreithlon gwynion a data'r gweithlu a ddatgelwyd yn wirfoddol.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Ni nododd yr ymgynghoriad unrhyw ganfyddiadau yn ymwneud yn benodol â beichiogrwydd na mamolaeth, ond mae cefnogaeth i dâl salwch gwell, oriau rhagweladwy, trefniadau gweithio hyblyg sy'n ystyriol o deuluoedd, polisïau llesiant ac urddas yn y gwaith yn berthnasol i weithwyr sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth, yn bwydo ar y fron neu'n dychwelyd i'r gwaith.

44. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid oes tystiolaeth ar gael ar brofiadau o feichiogrwydd a mamolaeth, cyflog, cadw staff, cyfleoedd i fanteisio ar drefniadau gweithio hyblyg na rhwystrau i ddychwelyd i'r gwaith, ac mae'n ansicr sut byddai cytundeb yn y dyfodol yn rhyngweithio ag oriau amrywiadwy, tâl salwch a threfniadau mamolaeth presennol.

45. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn cynnwys gweithwyr, undebau llafur, cyflogwyr, darparwyr ac unigolion, ond ni welwyd unrhyw dystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu â gweithwyr beichiog, y rhai ar absenoldeb mamolaeth na sefydliadau cynrychioliadol perthnasol.

46. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**

Mae'r dystiolaeth o blaid sicrhau y gall negodiadau posibl yn y dyfodol ymdrin â threfniadau gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd, oriau rhagweladwy, tâl salwch, llesiant a chydraddoldeb lle mae tystiolaeth ac adnoddau'n cyfiawnhau hyn, heb newid y ffocws cychwynnol ar gyflog a thelerau craidd.

47. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**

Gallai cyflog tecach a thelerau cyson wella diogelwch ariannol a chyfraddau cadw staff, ond rhaid i ddarpariaethau ynglŷn â phresenoldeb, hyfforddiant, dilyniant neu batrwm gwaith yn y dyfodol osgoi rhoi gweithwyr sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth neu y mae angen addasiadau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd arnynt dan anfantais.

48. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Byddwn yn profi darpariaethau Cytundebau Cyflog Teg yn y dyfodol ar gyfer cydraddoldeb, diogelu datblygiad cyflog, hyfforddiant a chymhwysedd yn ystod absenoldeb mamolaeth, adlewyrchu amddiffyniadau cyfreithiol ac addasiadau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd mewn canllawiau, ymgysylltu â gweithwyr ac undebau yr effeithir arnynt, a monitro cwynion, cyfraddau cadw staff a chanlyniadau dychwelyd i'r gwaith.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Ni nododd yr ymgynghoriad unrhyw effeithiau yn ymwneud yn benodol â phriodas na phartneriaeth sifil, gyda thystiolaeth berthnasol wedi'i chyfyngu i gefnogaeth gyffredinol i delerau teg a chyson yn y gweithle a'r ddyletswydd i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

50. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nid oes unrhyw dystiolaeth nodwedd-benodol ar gael nac nid oes unrhyw effaith wahaniaethol wedi'i nodi ar hyn o bryd, ond dylai telerau yn y dyfodol sicrhau nad yw buddion, absenoldeb, cymhwysedd na thriniaeth yn dibynnu'n anghyfreithlon ar statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

51. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus, y gweminarau a'r cyfarfodydd â rhanddeiliaid ar agor i bawb ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw weithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu neu nid ystyriwyd bod gweithgarwch o'r fath yn gymesur am na nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol.

52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Ni nodwyd unrhyw effaith wahaniaethol sylweddol. Felly, nid yw'r cynnig craidd wedi newid ac mae'n dal i gynnwys safonau gofynnol statudol a phroses weithredu anwahaniaethol.

53. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**

Ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol sylweddol, ar yr amod bod y cynnig yn gymwys i'r un graddau i weithwyr p'un a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil ai peidio a bod telerau yn y dyfodol yn osgoi triniaeth wahaniaethol na ellir ei chyfiawnhau.

54. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**

Byddwn yn sicrhau bod telerau, buddion a chanllawiau a negodwyd yn niwtral ac yn anwahaniaethol ac ailasesu unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol a allai effeithio ar statws priodas neu bartneriaeth sifil mewn ffordd wahanol.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. A yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

Ydy

2. Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, esboniwch pam.
Dd/B

3. **A yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn ddiweddariad ar fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?**

Nac ydy

4. Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd ar y materion cydraddoldeb a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

Bydd Tîm Polisi'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cydgysylltu gwaith monitro a gwerthuso cymesur drwy gylchoedd polisi a Chytundebau Cyflog Teg rheolaidd, gan weithio gyda Chadeirydd ac ysgrifenyddiaeth y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, comisiynwyr, cyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid perthnasol.

Bydd gwaith monitro yn llywio rheoliadau, llythyrau cylch gwaith a thrafodaethau, gyda'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei adolygu cyn i'r cytundeb cyntaf gael ei roi ar waith, ar ôl y cam gweithredu a thrwy gylchoedd blynyddol dilynol neu newidiadau i'r cwmpas.

Bydd y dystiolaeth yn cynnwys data ac arolygon gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, adborth rhanddeiliaid a gwybodaeth am gyflog, recriwtio, cadw staff, dilyniant, absenoldeb oherwydd salwch, cwynion a gorfodi. Defnyddir data wedi'i ddadgyfuno yn ôl cydraddoldeb lle y bônt ar gael, yn gyfreithlon ac yn gymesur.

Bydd y gwaith gwerthuso yn asesu a yw anghydraddoldebau yn lleihau ac yn nodi effeithiau anfwriadol ar grwpiau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn, gan gynnwys gweithwyr, pobl sy'n cael gofal, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, defnyddwyr taliadau uniongyrchol, gofalwyr di-dâl, cymunedau gwledig neu gymunedau Cymraeg.

Bydd canfyddiadau yn llywio llythyrau cylch gwaith, canllawiau, asesiadau effaith a chamau gweithredu yn y dyfodol, gyda chamau lliniaru yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru a rhanddeiliaid os bydd effeithiau anghyfartal neu andwyol yn dod i'r amlwg.

D. Awdurdodiad

Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr / Uwch-swyddog Cyfrifol:

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad i'w gyhoeddi wedi'i ystyried yn briodol.

Llofnod: 

Adran: Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Y Grŵp Iechyd, Gofal ac Atal

Dyddiad: 17/11/2026